

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU– TACSIS A MATERION ERAILL
(ANSTATUDOL)
a gynhaliwyd ar ffurf Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac
o bell drwy fideo gynadleda ddydd Iau, 06 Hydref 2022**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Euros Davies (Cadeirydd); y Cynghorwyr Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Paul Hinge, Gwyn James a John Roberts

Swyddogion yn bresennol: Mr Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad; Mrs Carwen Evans – Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad; Mr Gareth Rees – Uwch Swyddog Trwyddedu a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10:20am-10:50am)

5 Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Steve Davies, Endaf Edwards a Caryl Roberts am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Amanda Edwards am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod gan ei bod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

e Davies, Endaf Edwards and Caryl Roberts apologised for their inability to attend the meeting.

Councillor Amanda Edwards apologised for her inability to attend the meeting as she was on other Council duties.

6 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Dim.

7 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 yn gywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Paul Hinge wedi anfon ei ymddiheuriadau.

Materion yn codi

Dim.

8 Diweddariad cyffredinol- Tacsis a materion eraill (Anstatudol)

Ystyriwyd y diweddariad cyffredinol ynghylch tacsis a materion eraill (Anstatudol). Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn hysbysu'r Aelodau o waith yr

Adain Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd.

Rhodddwyd diweddariad ynghylch y canlynol:-

- Adolygu Prisiau Cerbydau Hacni (Tacsis)
- Gwrandawriad Tacsis - (Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976)
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth: 2022-2027 - Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio Tacsis, Deddfwriaeth a Diwygio Polisi, Diwygio Trwyddedu a Safonau Cenedlaethol ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat, System Tocynnau a Chynllunio Siwrneiau Integredig

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth .

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r diweddariad a roddwyd.

Nodwyd hefyd fod Gweithdy i'r Aelodau wedi ystyried yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022-2027 gan ymateb iddo yn y ffordd briodol.

9 Unrhyw Fusnes Arall

CYTUNWYD y byddai Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor yn paratoi dogfen gwmpasu i ystyried Blaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor. Dywedwyd y byddai modd cyflwyno'r Polisi Gorfodi gerbron y cyfarfod nesaf gan y byddai'n ddogfen ddefnyddiol i Aelodau newydd y Pwyllgor.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu - tacsis a materion eraill (anstatudol) a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 16 Mawrth 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____